| | |
|---|---|
| **Adroddiad i’r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Rhagfyr 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Penodiadau i’r Pwyllgor Safonau** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae’r adroddiad yn ymwneud â phenodi Aelod etholedig ac aelod annibynnol i lenwi seddi gwag ar Bwyllgor Safonau’r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Penodi Cynghorydd Sir i’r Pwyllgor Safonau a phenodi Aelodau’r Cyngor i Banel Penodiadau Arbennig y Pwyllgor Safonau fydd yn cael ei ffurfio i ystyried ceisiadau gan unigolion sy’n dymuno bod yn aelod annibynnol o’r Pwyllgor Safonau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelod o’r Cyngor yn cael ei benodi i lenwi sedd wag ar gyfer Aelod etholedig ar Bwyllgor Safonau’r Cyngor.

3.2 Bod Aelod o’r Cyngor yn cael ei benodi i Banel Penodiadau Arbennig y Pwyllgor Safonau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau 2001, fel y’i diwygiwyd, (y Rheoliadau) yn llywodraethu cyfansoddiad a thrafodion y Pwyllgor Safonau. Nid oes angen cydbwysedd gwleidyddol mewn Pwyllgor Safonau. Mae’n rhaid i Bwyllgor Safonau gael aelodaeth rhwng pump a naw aelod gan gynnwys aelodau lleyg annibynnol, Cynghorwyr Sir a chynrychiolaeth o Gyngor Dinas, Tref a Chymuned. Mae’n rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelodau lleyg annibynnol a cheir cworwm mewn cyfarfod os yw’r mwyafrif sy’n bresennol yn aelodau lleyg annibynnol.

4.2 Mae gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor hwn aelodaeth o saith aelod yn cynnwys dau Gynghorydd Sir, un aelod Cyngor Cymuned a phedwar aelod lleyg annibynnol.

4.3 Mae dwy sedd wag ar y Pwyllgor, un ar gyfer Aelod etholedig ac un ar gyfer aelod lleyg annibynnol.

4.4 Ceisir enwebiadau ar gyfer Aelod etholedig o’r Cyngor i’w penodi ar y Pwyllgor Safonau.

4.5 Mae’r Rheoliadau’n ei gwneud yn ofynnol bod Panel Penodiadau Arbennig Pwyllgor Safonau yn cael eu penodi i ystyried ceisiadau gan rai sy’n dymuno bod yn aelodau annibynnol o’r Pwyllgor a llunio argymhellion i’r Cyngor. Mae pum aelod ar y panel hwn, tri ohonynt yn Gynghorwyr Sir, aelod lleyg ac aelod o Gyngor Dinas, Tref neu Gymuned. Mae sedd wag ar gael ar gyfer Cynghorydd Sir ar y Panel. Ceisir enwebiadau ar gyfer y sedd wag hon.

4.6 Bydd y Panel yn cyfarfod i benodi aelod lleyg ac aelod o Gyngor Dinas, Tref a Chymuned, i’r Panel ac yna’n ystyried ceisiadau ac yn cynnal cyfweliadau. Bydd y Panel yn llunio argymhelliad ar y penodiad ar gyfer y Cyngor.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd Pwyllgor Safonau gwbl weithredol a chynrychioliadol sy’n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn cynorthwyo i ategu at weithredu swyddogaethau democrataidd y Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn, fodd bynnag, bydd angen i’r Cyngor, yn ôl deddfwriaeth, osod hysbysebion mewn o leiaf dau bapur newydd yn yr ardal yn ymwneud â sedd wag ar gyfer aelod annibynnol.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i’r adroddiad hwn.**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb yn yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ynglŷn â’r penodiadau a geisir gan yr adroddiad hwn. Gofynnwyd i Arweinwyr Grwpiau ystyried enwebiadau mewn perthynas â'r penodiadau hyn. Mae gofyniad statudol i hysbysebu’n gyhoeddus ar gyfer aelodau annibynnol y Pwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bychain iawn yw’r costau sy’n gysylltiedig â’r penderfyniad a byddant yn cael eu cynnwys o fewn yr adnoddau cyfredol.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Risg o beidio â phenodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau gan olygu y gallai aelodaeth llai gynyddu'r tebygolrwydd na fydd cworwm i'r Pwyllgor.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd.